# Ymateb i'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae Cyngor ar Bopeth Cymru'n croesawu'r cyfle i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y strategaeth genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

1.2. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru ystyried y canlynol:

- datblygu'r amcanion a'r blaenoriaethau lefel uchel i fod yn rhai CAMPUS ac yn rhai sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau er mwyn gallu gweithredu a monitro'n fwy effeithiol
- darparu'r pecyn e-ddysgu'n ehangach fel y gall sefydliadau sydd y tu allan i'r sector cyhoeddus ei ddefnyddio
- gweithio gyda phrifysgolion Cymru i ymgorffori ymwybyddiaeth a dealltwriaeth mewn cyrsiau addysgol sy'n ymwneud â'r sector cyhoeddus
- sicrhau bod ymwneud â dioddefwyr a goroeswyr yn cael eu cynnwys fel gofynion yn y canllawiau i'r sector cyhoeddus wrth greu eu strategaethau lleol a'u dulliau comisiynu rhanbarthol
- bod y canllawiau GOFYN a GWEITHREDU yn cynnwys gwybodaeth am OFYN fel ymholiad rheolaidd er mwyn gallu cael disgresiwn lleol wrth ddatblygu dull
- comisiynu hirdymor sy'n adfer costau'n llawn er mwyn sicrhau sefydlogrwydd ariannol a helpu i flaengynllunio'r gwasanaethau dan sylw
- rôl gwasanaethau gwybodaeth a chyngor cymeradwy o ansawdd[1] i ddarparu cymorth cyfannol i sicrhau bod unigolion a'u teuluoedd yn gallu

[1] Mae Fframwaith Sichrau Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor Llywodraeth Cymru, a fydd yn cael ei weithredu o fis Ebrill 2017, yn sicrhau ansawdd gwasanaethau i helpu pobl i ddeall a defnyddio eu hawliau a gwneud penderfyniadau deallus i hyrwyddo cyfle teg a chyfartal mewn bywyd.

gwneud penderfyniadau deallus am eu dyfodol, yn enwedig am eu hopsiynau tai ac ariannol

1.3. Byddai Cyngor ar Bopeth Cymru'n croesawu'r cyfle i drafod unrhyw un o'r meysydd a godwyd yn yr ymateb hwn gyda'r tîm Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig.

## 2. Sylwadau cyffredinol

2.1. Mae'r strategaeth a'r blaenoriaethau a restrwyd yn cwmpasu meysydd eang ac nid ydynt yn rhai CAMPUS nac yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Er ein bod yn deall y bydd y manylion hyn yn cael eu cynnwys yn y cynllun gweithredu a fydd yn cyd-fynd â'r strategaeth, ni ddarparwyd y cynllun, ac ni fydd yn cael ei ddarparu ar gyfer sylwadau. Mae hyn felly'n cyfyngu ar allu ymatebwyr i gyfrannu'n ystyrlon at waith Llywodraeth Cymru. Byddem yn croesawu pennu blaenoriaethau CAMPUS yn y strategaeth er mwyn gallu gweithredu a monitro'n effeithiol. Fel arall, byddem yn croesawu ymrwymiad i ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu i sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac ar unigolion i alluogi Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus Cymru i gydweithio'n effeithiol er mwyn atal a mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn well.

2.2. Fel y soniwyd mewn ymatebion blaenorol rydym yn bryderus am lefel y cymorth arbenigol sydd ar gael yn y gymuned i'r rhai sy'n datgelu. Yn sgil mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf Trais ar sail Rhywedd a chyflwyno'r broses GOFYN A GWEITHREDU ledled y sector cyhoeddus credwn y bydd mwy yn datgelu ac y bydd mwy o angen am wasanaethau. A hynny ar adeg o doriadau ariannol ledled y sector a chynnydd amlwg mewn cymorth cyffredinol yn hytrach nag arbenigol yn cael ei ddarparu drwy gefnogi cyllid i ddioddefwyr a chyflawnwyr camdriniaeth ddomestig. Mae'n debyg y bydd angen clustnodi neu gynyddu cyllid i gwrdd â mwy o alw. Byddai hyn yn sicrhau nad yw datgelu'n arwain at roi pobl mewn perygl a gellid cyflawni hyn drwy'r canllawiau arfaethedig i gyrff cyhoeddus ar eu strategaethau a'u dull comisiynu lleol.

2.3. Yn sgil: Bil Cymru; y refferendwm i adael yr UE a'r effaith ar wariant cyhoeddus; diwygiadau posibl i'r system gyfiawnder; ac effaith y cyni parhaus ar wasanaethau cyhoeddus a budd-daliadau lles, rydym yn awgrymu y dylai'r strategaeth gynnwys ymrwymiad i gynnal adolygiad blynyddol o'r amcanion a'r blaenoriaethau er mwyn caniatáu hyblygrwydd a chyfle i newid. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod modd addasu'r strategaeth i gyfateb i'r amgylchedd allanol newidiol a'i fod yn cael ei lywio'n barhaus gan arferion sy'n datblygu.

2.4. Mewn modd tebyg, byddem o blaid ailysgrifennu'r blaenoriaethau i atal y strategaeth rhag cael ei dehongli fel un nad yw'n galluogi datblygu gwasanaethau newydd, e.e.

Newid:

- *Byddwn yn gweithio gyda'r Ymgynghorydd Cenedlaethol, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, gwasanaethau arbenigol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a gwasanaethau plant i sicrhau bod gan deuluoedd a adnabuwyd ac y mae arnynt angen cymorth i fyw gyda sawl profiad andwyol yn ystod plentyndod sy'n ymwneud â cham-drin domestig a thrais rhywiol, fynediad at* ***ymyriadau presennol*** *a ddarperir gan wasanaethau arbenigol. (tud 24).*

i:

- *Byddwn yn gweithio gyda'r Ymgynghorydd Cenedlaethol, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, gwasanaethau arbenigol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a gwasanaethau plant* ***ac oedolion*** *i sicrhau bod gan deuluoedd a adnabuwyd ac y mae arnynt angen cymorth i fyw gyda sawl profiad andwyol yn ystod plentyndod sy'n ymwneud â cham-drin domestig a thrais rhywiol, fynediad at* ***ymyriadau*** *a ddarperir gan* ***wasanaethau arbenigol ac anarbenigol sy'n diwallu eu hanghenion ac amgylchiadau*** *(tud 24).*

Byddai hyn yn galluogi ymatebion hyblyg y gellir eu haddasu i amgylchiadau penodol y teulu. Byddai hefyd yn adlewyrchu y gallai'r dadansoddiad o anghenion sydd ei angen i ddatblygu'r strategaethau lleol nodi bylchau mewn gwasanaethau a chyfleoedd ar gyfer datblygiadau neu ddulliau newydd.

## 3. Blaenoriaethau atal

3.1. Rydym yn cefnogi'r amcanion a nodwyd ar gyfer atal – er eu bod yn eang mae ganddynt flaenoriaethau posibl i'w hadnabod ar gyfer gweithio tuag at eu cyflawni.

3.2. Yn amcan 1 hoffem weld ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gynnwys yn y cynllun gweithredu, os nad y strategaeth ei hun. Ymrwymiad i ddarparu pecyn e-ddysgu grŵp 1 yn ehangach i bobl Cymru, a hyrwyddo ei ddefnydd i sefydliadau'r trydydd sector yn arbennig. Gallwn ni, ac aelodau'n rhwydwaith, ddilyn y cwrs drwy gofrestru gyda Learning@NHSWales, ond mae problemau wedi bod gyda hyn ac nid oes llawer yn gwybod ei fod ar gael i bobl y tu allan i'r GIG. Mae'n adnodd di-dâl sy'n darparu lefel sylfaenol o ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a chredwn y dylai fod ar gael a'i ddefnyddio'n ehangach nag sy'n digwydd ar hyn o bryd. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru wneud trefniadau i ddarparu'r pecyn e-ddysgu:

- ar y Parth Dysgu ac Academi Wales i hyrwyddo ei ddefnydd i'r trydydd sector
- i sefydliadau fel y gallant ei gynnwys yn eu darpariaeth dysgu a datblygu eu hunain

3.3. Yn amcan 1 neu 2 byddem yn croesawu ymrwymiad penodol gan Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â darparwyr addysg uwch ledled Cymru sy'n addysgu darpar weithwyr y sector cyhoeddus er mwyn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Credwn y byddai sicrhau bod prifysgolion yn cynnwys hyfforddiant ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i weithwyr sector cyhoeddus y dyfodol yn helpu i gefnogi ac ymgorffori nodau ac amcanion y fframwaith hyfforddi cenedlaethol. Hoffem weld y cyrsiau prifysgol canlynol yn cael eu targedu i gynnwys elfen ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan gychwyn gyda llais y dioddefwr a'r cyflawnwr: gwaith cymdeithasol; nyrsio; meddygon dan hyfforddiant; athrawon dan hyfforddiant; swyddogion tai.

3.4. Mae Rhondda Cynon Taf yn enghraifft o awdurdod lleol sydd wedi gweithio'n llwyddiannus gyda phrifysgol i gynyddu llais a phrofiad defnyddwyr gwasanaethau mewn amgylchedd dysgu ffurfiol a mantais hyn i'r dysgwr. Mae'r Prosiect Cymorth  Gofalwyr a'r rhaglen cynnwys defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl (sy'n cael ei redeg gan Interlink) wedi cefnogi gofalwyr a defnyddwyr gwasanaethau i gymryd rhan yn rhaglenni gwaith cymdeithasol a nyrsio Prifysgol De Cymru ers sawl blwyddyn. Mae dysgwyr wedi croesawu hyn yn gynnes, mae'n cyfrannu at sicrhau bod gan weithlu'r dyfodol fwy o ymwybyddiaeth o'r materion a'u bod yn deall anghenion a phroblemau'r grwpiau defnyddwyr penodol hyn gan gefnogi defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i gryfhau eu llais a gwella eu hunanhyder ar yr un pryd.

3.5. Rydym hefyd o blaid gweithio gyda darparwyr gwasanaethau ledled Cymru i ymgorffori gwybodaeth am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn cyfleoedd a gofynion datblygu proffesiynol parhaus (DPP) gweithwyr y sector cyhoeddus a'r rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymorth yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Byddai targedu darparwyr DPP i gynnwys gwybodaeth am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cefnogi gweithrediad y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ac yn darparu mwy o gyfleoedd i addysgu'r holl grwpiau a nodwyd yn y fframwaith. Credwn y dylid rhoi blaenoriaeth i weithio gyda meddygon teulu a darparwyr hyfforddiant DPP iechyd meddwl yn sgil y cysylltiadau â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn enwedig y ffaith fod gan lawer o ddioddefwyr a goroeswyr salwch meddwl.

## 4. Blaenoriaethau amddiffyn

4.1. Rydym yn cytuno â'r blaenoriaethau a bennwyd i gyflawni'r amcan amddiffyn gan ganolbwyntio ar weithredu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Rydym yn croesawu'r flaenoriaeth i ddatblygu fframwaith ar gyfer ymgysylltu â dioddefwyr a goroeswyr. Hoffem weld pwyslais ar y dull hwn yn y canllawiau i'r sector cyhoeddus ar greu eu strategaethau lleol a'u dulliau comisiynu rhanbarthol.

4.2. **Ceir ymholiad arferol GOFYN (ASK RE) Cyngor ar Bopeth** mewn rhai lleoliadau cyngor wyneb-yn-wyneb i nodi profiad presennol neu flaenorol o gam-drin domestig. Darperir y wybodaeth ganlynol felly i gefnogi datblygiad GOFYN a GWEITHREDU i sector cyhoeddus Cymru. Mae rhagor o fanylion ar gael gan Helen Scadding a fyddai'n croesawu'r cyfle i rannu dysgu ar weithredu'r rhaglen. Mae swyddfeydd Cyngor ar Bopeth lleol sy'n gweithredu'r rhaglen ASK RE yn gallu rhannu eu profiadau a gwersi hefyd, ac mae rhai o'r rhain i'w cael ar-lein, fel adroddiad Cyngor ar Bopeth  Sir y Fflint, *'Let's talk about domestic abuse'*.

4.3. Yn 2012-13, roedd llai na 0.8% o'n hymholiadau yn ymwneud â thrais a cham-drin ar sail rhywedd er bod 1 o bob 4 menyw yn profi trais a chamdriniaeth ddomestig fel oedolion, a hyd at 1 o bob 6 o ddynion yn profi o leiaf un digwyddiad o gam-drin domestig fel oedolion. Yn ystod y cyfnod hwn fe welsom dros 1.2 miliwn o fenywod. Yn seiliedig ar y cyfartaleddau uchod fe allem fod wedi gweld 150,000 o fenywod a oedd wedi dioddef a goroesi trais domestig, ond dim ond 11,500 o fenywod a ddatgelodd hynny.

4.4. Mae'r rhaglen ASK RE a ddatblygwyd mewn ymateb i hyn yn darparu hyfforddiant a chymorth i ganghennau Cyngor ar Bopeth ledled y DU, gan ymgorffori ymholiad rheolaidd am brofiadau cleient o drais a cham-drin ar sail rhywedd mewn sesiynau cyngor wyneb-yn-wyneb, a darparu cymorth, cyfeiriadau a chyngor effeithiol os yw'r cleient yn datgelu. Rydym wedi mabwysiadu'r rhaglen hon gan ein bod yn gweithredu dull cyfannol o ddatrys problemau cleientiaid. Roeddem yn gwybod bod angen i ni feddwl am ffordd o nodi mwy o gleientiaid y mae trais a cham-drin ar sail rhywedd, yn cynnwys cam-drin ariannol, wedi effeithio arnynt, gan fod cysylltiad tebygol rhwng hyn a'r broblem/problemau a gyflwynir i Cyngor ar Bopeth. Mae bod yn ymwybodol o holl amgylchiadau problem cleient yn golygu y gallwn ymdrin â'r broblem yn well drwy wybod y darlun cyfan.

4.5. Cynhaliwyd y cyfnod treialu yn 2013 a'i brofi drwy ddefnyddio model 'ymholiad rheolaidd', model a ddefnyddiwyd yn effeithiol gan y GIG i OFYN i grwpiau o gleifion penodol am gamdriniaeth ac i ddarparu rhagor o wybodaeth os oedd angen. Mae ein rhaglen yn sicrhau mai dim ond os ydynt yn dod i ymholi am broblem dyledion, budd-dal, teulu/perthynas neu dai ar eu pen eu hunain, mewn amgylchedd preifat a diogel y GOFYNnir y cwestiwn hwn. Ers y cyfnod treialu

mae'r rhaglen hyfforddiant wedi'i chyflwyno i dros 100 o swyddfeydd ledled y DU, gan arwain at y canlynol:

- GOFYNnwyd y cwestiwn i 6, 487 o gleientiaid rhwng Rhagfyr 2014-15 gyda chyfradd ddatgelu o 17% (1,072). Roedd 84% o'r rhai a ddatgelodd eu bod wedi dioddef yn fenywod a 16% yn ddynion.
- gwelwyd bod gan 9 o bob 10 unigolyn sy'n derbyn cymorth gan Cyngor ar Bopeth ar gyfer problem cam-drin domestig, broblem arall fel dyled neu dai. Y 3 prif broblem yr oedd cleientiaid a ddatgelodd achosion o drais a cham-drin ar sail rhywedd yn gofyn am gymorth ar ei chyfer oedd: dyled (30%), budd-daliadau (25%) neu dai (24%).
- datgelodd 1.5% o gleientiaid y GOFYNnwyd y cwestiwn iddynt achosion o gael eu cam-drin fel plentyn, datgelodd 8% achosion o gam-drin blaenorol fel oedolyn a datgelodd 8% arall achosion o gam-drin sy'n parhau i ddigwydd neu wedi digwydd o fewn y chwe mis diwethaf.

4.6. Mae'r gwerthusiad o'r dull hwn yn dal i fynd rhagddo gyda gwerthuswyr annibynnol o Brifysgol Caerhirfryn (Dr Susie Balderston a'r Athro Sylvia Walby) wedi'u penodi i ymchwilio ac i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a phrif ffrydio'r rhaglen ASK RE yn barhaus i'n gwasanaethau cyngor. Mae gwerthusiad mewnol o'r rhaglen hyd yn hyn wedi nodi canlyniadau a manteision cadarnhaol defnyddio'r rhaglen, yn cynnwys:

- mae trais a cham-drin ar sail rhywedd yn broblem gyffredin i'n cleientiaid
- mae gofyn ymholiad rheolaidd yn annog pobl i ddatgelu
- mae datgelu'n gynnar yn ein galluogi i helpu mwy o gleientiaid ac yn rhoi opsiynau, a allai achub bywyd
- nid yw'r ffaith ein bod yn gofyn y cwestiwn yn poeni'r rhan fwyaf o gleientiaid ac mae dioddefwyr am i ni ofyn y cwestiwn
- mae cynghorwyr yn datblygu hyder a sgiliau i ddefnyddio ASK RE gydag amser
- mae defnyddio ASK RE yn ein galluogi i ddarparu cyngor gwell i fwy o gleientiaid
- mae partneriaethau, a chyfeirio ac atgyfeirio, gyda sefydliadau lleol a chenedlaethol yn gwella

4.7. Mabwysiadwyd dull ASK RE gan bob un o'r 19 elusen Cyngor ar Bopeth lleol yng Nghymru sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant, gyda 17 ohonynt yn GOFYN yn rheolaidd. Mae tystiolaeth anecdotaidd gan y rhwydwaith yng Nghymru wedi dangos problemau o ran gallu cael gafael ar wasanaethau yng nghefn gwlad, ond yn gyffredinol mae GOFYN wedi galluogi canghennau Cyngor ar Bopeth lleol i feithrin perthynas gadarnhaol ag asiantaethau trais domestig lleol i gefnogi cleientiaid sydd angen cymorth yn syth. Mae Cyngor ar Bopeth Rhondda Cynon

Taf wedi bod yn rhan o raglen GOFYN ers dros flwyddyn a newydd benderfynu ymestyn GOFYN y cwestiwn ym mhob maes cyngor yn dilyn adolygiad mewnol o'r rhaglen. Maent yn gobeithio y bydd y dull hwn o ymestyn GOFYN i'r holl gleientiaid yn cyrraedd mwy o bobl, yn sicrhau cysondeb ar draws eu gwasanaethau ac yn helpu i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o drais a cham-drin ar sail rhywedd yn eu hardal.

4.8. O'n profiad ni o OFYN byddem am i ganllawiau GOFYN a GWEITHREDU gyfeirio at OFYN fel ymholiad rheolaidd yn hytrach nag ymholiad wedi'i dargedu fel sy'n cael ei gynnig. Credwn y byddai hyn yn cefnogi'r flaenoriaeth atal o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o drais a cham-drin ar sail rhywedd ledled Cymru drwy hyrwyddo trafodaeth a datgelu diogel, yn ogystal â chefnogi'r newid diwylliannol sydd ei angen i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Hefyd, gall GOFYN yn rheolaidd osgoi natur oddrychol y broses ymholiad wedi'i dargedu a'r pwysau ar staff rheng flaen i wneud penderfyniad ynglŷn â phwy i OFYN y cwestiwn iddo. Bydd y gwerthusiad annibynnol o'n dull yn darparu rhagor o fanylion ar effaith GOFYN yn rheolaidd. Byddwn yn darparu hwn i Lywodraeth Cymru ar ôl ei gwblhau.

## 5. Blaenoriaethau cymorth

5.1. Rydym yn cytuno â'r blaenoriaethau a bennwyd i gyflawni'r amcanion cymorth. Rydym hefyd yn croesawu cynnwys darparu canllawiau ar gomisiynu a llwybr integredig i gefnogi anghenion dioddefwyr sy'n profi llawer o anfanteision. Gofynnwn i'r canllawiau ar gomisiynu hyrwyddo'r canlynol:

- comisiynu hirdymor sy'n adfer costau'n llawn er mwyn sicrhau sefydlogrwydd ariannol a helpu i flaengynllunio'r gwasanaethau dan sylw
- gwasanaethau gwybodaeth a chyngor cymeradwy o ansawdd i ddarparu cymorth cyfannol i sicrhau bod unigolion a'u teuluoedd yn gallu gwneud penderfyniadau deallus am eu dyfodol, yn enwedig eu hopsiynau tai ac ariannol

5.2. Roedd ein gwaith diweddar i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o drais a cham-drin ar sail rhywedd a gynhaliwyd fel rhan o'n hymgyrch *Talk about abuse* yn cynnwys gwaith ymchwil arwyddocaol i gam-drin ariannol, ffurf o gam-drin domestig nad yw'n cael ei hysbysu na'i nodi ddigon o lawer. O arolwg o dros 2,000 o bobl, a gynhaliwyd ar ein rhan gan ComRes (Mai 2015) canfuwyd y canlynol:

- dim ond 2 o bob 5 o oedolion y DU sy'n ymwybodol bod cam-drin domestig yn gallu cynnwys elfen ariannol
- nid yw 4 o bob 10 o bobl (39 y cant) yn ymwybodol bod mynnu bod eu partner yn rhoi cyfrif am eu holl wariant yn gallu bod yn gam-drin domestig

- nid yw dros hanner (55 y cant) yn cydnabod bod trefnu benthyciad yn enw dioddefwr heb iddo wybod yn ffurf ar gam-drin[2]

Canfu'r ymchwil hefyd nad yw llawer o bobl yn ymwybodol bod cam-drin domestig yn golygu mwy na thrais corfforol. Gwelir hyn yng ngwaith ymchwil diweddar Coleg yr Heddlu (Medi 2016) ac mewn canllawiau newydd a grëwyd gyda'r nod o newid dealltwriaeth ddiwylliannol o gam-drin domestig yn heddluoedd y DU ar ôl gweld nad yw swyddogion o reidrwydd yn adnabod patrymau risg uchel o gam-drin cymhellol a rheoli, yn cynnwys cam-drin ariannol, gan eu bod yn canolbwyntio ar y ffeithiau yn y digwyddiadau unigol y maen nhw'n ymdrin â nhw.

5.3 Roedd adroddiad Cyngor ar Bopeth *Controlling money, controlling lives* yn 2014 yn dangos bod pobl a oedd yn cam-drin yn ddomestig yn cyfyngu mynediad y dioddefwyr i'w cyfrifon banc, yn dwyn ganddynt ac yn difrodi eu heiddo. Roedd rhai dioddefwyr wedi gorfod gofyn am gymorth ar ôl mynd i ddyledion mawr wrth gael eu gorfodi i gymryd benthyciadau ar gyfer y sawl oedd yn eu cam-drin. Mewn rhai achosion roedd bygythiadau, trais corfforol a hyd yn oed bygythiadau ailadroddus i ladd yn cyd-fynd â'r achosion o gam-drin ariannol. Roedd arolwg o gynghorwyr Cyngor ar Bopeth ar gyfer yr adroddiad yn dangos bod y dioddefwyr roeddynt wedi eu helpu drwy eu gwaith wedi cael eu cam-drin yn ariannol 77 y cant o'r adeg.

5.4 Rydym felly am weld y canllawiau comisiynu'n cynnwys amrywiaeth lawn o wasanaethau cymorth y mae dioddefwyr a goroeswyr yn debygol o fod eu hangen, e.e. gwasanaethau gwybodaeth a chyngor arbenigol sy'n cwmpasu tai, dyledion, cyngor ar hawliau lles, a chynhwysiant ariannol. Mae angen y gwasanaethau gwybodaeth a chyngor hyn yn ogystal â'r gwaith cymorth a wneir gan ddarparwyr gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol arbenigol sy'n gofyn am wahanol sgiliau, hyfforddiant, gwybodaeth, yswiriant ac awdurdodiad yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (ar gyfer gwaith dyledion), lle bo'n berthnasol.

5.5 Dylai canfyddiadau gwaith y Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol i anghenion gwybodaeth a chyngor Cymru gael eu cyfeirio a'u defnyddio yn y canllawiau comisiynu i sicrhau bod lefelau priodol o wasanaethau ar gael. Mae angen hyn yn arbennig yn sgil y blaenoriaethau a amlinellwyd i gefnogi amcan 5, yn cynnwys cefnogi teuluoedd drwy gyllid Teuluoedd yn Gyntaf fel ffordd o hyrwyddo dull cymorth integredig ar gyfer y teulu cyfan. Fodd bynnag, mae'n debyg y bydd cyllid yn cael ei dynnu o'r gwasanaethau gwybodaeth a chyngor cefnogol hyn yn sgil y cyhoeddiad diweddar ar newid pwyslais cyllid Teuluoedd yn Gyntaf i roi

[2] Am ragor o fanylion gweler ein datganiad i'r wasg ym Mehefin 2015 Financial abuse going 'under the radar'

blaenoriaeth i lenwi bylchau a nodwyd mewn gwasanaethau ac i gysylltu mwy ag atal Digwyddiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

## 6. Effaith ar nodweddion gwarchodedig

6.1. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n gwella'r wybodaeth gyd-destunol yn adran 2 y strategaeth i:

- wahanu'r wybodaeth am drawsrywedd o'r adran Bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol+ gyfredol i fod yn grŵp ar ei ben ei hun er mwyn rhoi gwell adlewyrchiad o'r rhwystrau penodol y mae pobl drawsrywiol yn eu hwynebu wrth geisio datgelu a chael cymorth, yn ogystal â natur wahanol a chymhleth eu hanghenion
- cynnwys pobl anabl fel grŵp penodol a nodi eu bod yn profi lefelau uwch o gamdriniaeth gan eu bod yn agored i niwed mewn sawl ffordd ac wedi'u hynysu hefyd
- ystyried gwybodaeth ychwanegol am y lefel uchel o broblemau iechyd meddwl ymysg y rhai sydd wedi profi, neu yn profi trais ar sail rhywedd

## Ynglŷn â Chyngor ar Bopeth Cymru

Mae Cyngor ar Bopeth yn elusen annibynnol sy’n cwmpasu Cymru a Lloegr. Mae’n gweithredu fel Cyngor ar Bopeth Cymru yng Nghymru ac mae ganddi swyddfeydd yng Nghaerdydd a’r Rhyl. Mae 19 o Ganolfannau Cyngor ar Bopeth yng Nghymru, pob un ohonynt yn aelodau o Gyngor ar Bopeth Cymru, ac yn darparu gwasanaethau o dros 375 o leoliadau.

Mae gan y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth ddau nod:

- darparu’r cyngor sydd ei angen ar bobl ar gyfer y problemau a wynebant
- gwella’r polisïau a’r arferion sy’n effeithio ar fywydau pobl.

Mae’r cyngor a ddarperir gan y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn rhad ac am ddim, yn annibynnol, â sicrwydd ansawdd, yn gyfrinachol a diduedd, ac mae ar gael i bawb beth bynnag fo’u hil, rhywedd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, oedran neu’u cenedligrwydd.

Mae gan y Gwasanaeth Cyngor ar Bopeth gyfrifoldebau dros gynrychioli defnyddwyr yng Nghymru yn sgil newidiadau Llywodraeth y DU ym maes defnyddwyr.[3] O 1af Ebrill 2014 mae’r cyfrifoldebau hyn yn cynnwys swyddogaethau statudol a chyfrifoldebau i gynrychioli defnyddwyr ynni a’r post.

### Am wybodaeth bellach neu unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag:

Elle McNeil

Policy Officer / Rheolwr Polisi

Citizens Advice Cymru / Cyngor ar Bopeth Cymru

Elle.McNeil@CitizensAdvice.org.uk / policy.cymru@CitizensAdvice.org.uk

[3] Ar 1 Ebrill 2013 trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros gynrychioli defnyddwyr o Lais Defnyddwyr at Wasanaeth Cyngor ar Bopeth (gan cynnwys Cyngor ar Bopeth Cymru) yn dilyn adolygiad Llywodraeth y DU o faes defnyddwyr. O 1 Ebrill 2014 mae hyn yn cynnwys swyddogaethau a chyfrifoldebau statudol i gynrychioli defnyddwyr post ac ynni.